# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD MAWRTH, 3 TACHWEDD 2015

**YN BRESENNOL:**

**Y CYNGHORWYR:** Elfed Williams, Eryl Jones-Williams a Ann Williams

**SWYDDOGION:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu) a Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Systemau Gweithredol - Gwarchod y Cyhoedd)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Eryl Jones Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.
Nid oedd unrhyw ymddiheuriad wedi ei gyflwyno

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

Gyda chaniatâd yr ymgeisydd rhoddwyd hawl i'r Cynghorydd Angela Russell (aelod wrth gefn i'r Is Bwyllgor Trwyddedu) arsylwi'r cyfarfod er mwyn ymgyfarwyddo gyda threfn y gwrandawiad

## 5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

a) Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd. Nodwyd bod datganiad o gollfarnau wedi ei gyflwyno, ac oherwydd bod troseddau perthnasol i'r maes trwyddedu wedi eu cynnwys ar y datganiad, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Amlygwyd bod yr ymgeisydd yn berson cwrtais, wedi cadw at ei apwyntiadau ac wedi bod yn barod i rannu gwybodaeth bersonol a chydweithio gyda'r adran. Nodwyd hefyd bod ganddo drwydded yrru lân ers 2011.

b) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais. Cydnabuwyd bod y troseddau a ddatgelwyd yn gywir. Ymhelaethodd ei fod yn chwilio am waith llai llafurus gan ei fod yn mynd yn hŷn a nododd ei fod wedi cael cynnig swydd gyda chwmni tacsi lleol.

Yn cefnogi cais Mr A roedd Perchennog y Cwmni Tacsi ac fe gadarnhaodd ei fod yn adnabod yr ymgeisydd ers rhai blynyddoedd a bod swydd ar gael i Mr A petai'r drwydded yn cael ei chaniatáu.

c) Ymneilltuodd yr ymgeisydd a pherchennog y Cwmni Tacsi o'r ystafell tra y bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

ch) Ar ôl ystyriaeth fanwl, penderfynodd yr Is-bwyllgor bod yr ymgeisydd yn berson priodol i gael trwydded yrru cerbyd hacni / hurio preifat, a caniatawyd y cais. Teimlai'r Is-bwyllgor bod y troseddau yn rai hanesyddol ac wedi digwydd tu allan i gofnod y canllawiau perthnasol. Roedd yr Is Bwyllgor yn ddiolchgar i'r ymgeisydd am ei barodrwydd i gydweithio gyda'r adran ac i berchennog y cwmni tacsi am ei gefnogaeth. Dymunwyd y gorau i'r ymgeisydd yn ei swydd newydd.

**PENDERFYNWYD** caniatáu cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 10.30 y.b.

**CADEIRYDD**